# Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru

**Cyfarfod hybrid - rhithwir drwy Microsoft Teams / Caerdydd 1 a 2, Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ**
**Dydd Iau 23 Mawrth 2023**

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt, Aelod o'r Senedd | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (Cadeirydd) |
| Mick Antoniw, Aelod o'r Senedd | Cwnsler Cyffredinol Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Chris Philp, Aelod Seneddol | Gweinidog Troseddu a Phlismona |
| Dr James Davies, Aelod Seneddol | Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru |
| Dr. Richard Lewis | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Liz Lalley | Cyfarwyddwr Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Gary Haggaty | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Judith Cole | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| Lucy Akhtar | Uwch-reolwr y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Jayne Phillips | Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Jenny Hopkins | Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Chris Batchelor | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig, y Swyddfa Gartref |
| Louise Foreman | Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Mark Brace | Pennaeth Interim y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC |
| Sian Curley | Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Lee Jones | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Peter Curran | Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Ian Roberts | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu Gwent |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Christina Fraser | Prif Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Asif Afsar | Cydlynydd Busnes Cymru Gyfan |
| Sahil Afware | Uwch-Ysgrifennydd Preifat, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Sarah Capstick | Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel CLlLC |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Cyffredinol Adfer wedi COVID-19, Llywodraeth Cymru |

Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod**

| |
|---|
| Swyddogion o'r Is-adran Diogelwch Cymunedol i gysylltu â Swyddogion Iechyd yn Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Bacon ar sut y gellir defnyddio'r dull gweithredu Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir yng Nghymru gyda gwasanaethau iechyd Cymru. |
| Chris Batchelor, y Swyddfa Gartref i adrodd yn ôl ar bryderon Plismona yng Nghymru ynghylch cyllid a nodwyd yn y cyfarfod i'r Gweinidog Plismona ac, yn benodol, y dylai Cymru gael cyllid canlyniadol o ganlyniad i gyhoeddiadau am gyllid a wnaed yn Lloegr. |
| Sicrhau bod cyllid yr heddlu ar yr agenda ar ddechrau cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru y tro nesaf y bydd y Gweinidog Plismona yn bresennol, fel bod y Gweinidog Plismona yno i glywed y pryderon ynghylch Plismona yng Nghymru. |
| Jane Hutt, Aelod o'r Senedd, i rannu pryderon ynghylch Plismona yng Nghymru â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas ag a) digonolrwydd cyllid GanBwyll a b) a oedd camau ymarferol priodol wedi'u cymryd (megis addysgu'r cyhoedd) er mwyn paratoi ar gyfer rhoi'r terfyn cyflymder 20 mya ar waith ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru o fis Medi 2023. |
| Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert i drafod pa mor anodd yw olrhain cyllid canlyniadol yng Nghymru yn eu cyfarfod dwyochrog nesaf. |
| Llythyr ar y cyd oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i gael ei anfon at y Gweinidog Plismona am yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag olrhain cyllid canlyniadol yng Nghymru yn sgil cyhoeddi cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth camddefnyddio sylweddau yn Lloegr. Bydd y llythyr hefyd yn tynnu sylw at bryderon parhaus ynghylch yr Ardoll Brentisiaethau a'r diffyg cyllid cysylltiedig a wynebir gan heddluoedd yng Nghymru. |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Estynnodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol groeso i aelodau Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Nododd nad oedd y Prif Weinidog yn gallu cadeirio'r cyfarfod hwn fel y cynlluniwyd oherwydd ymrwymiadau eraill yng Ngogledd Cymru. Croesawodd y Gweinidog y Gweinidog Gwladol dros Droseddu, Plismona a Thân, Chris Philp, Aelod Seneddol, a Dr James Davies, Aelod Seneddol, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, a oedd yn cynrychioli David TC Davies, Aelod Seneddol, a nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.

Nododd y Cadeirydd mai dyma fyddai cyfarfod olaf Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert o Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru gan y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dunbobbin yn cymryd yr awenau, a diolchodd iddo am ei gymorth a'i waith fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Arweiniol. Croesawodd Louise Foreman hefyd a oedd yn cynrychioli Chris Jennings a diolchodd i Mick Antoniw, Aelod o'r Senedd, Cwnsler Cyffredinol Cymru am fod yn bresennol.

## 2. Gair o groeso a sylwadau gan y Gweinidog Gwladol dros Droseddu, Plismona a Thân: Y Gwir Anrhydeddus Chris Philp, Aelod Seneddol, a Dr. James Davies, Aelod Seneddol, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru

**2.1.** Diolchodd y Gweinidog Troseddu a Phlismona i'r grŵp am y gwahoddiad a nododd ei fod yn awyddus i gael cydberthynas waith agos rhwng y Swyddfa Gartref, Plismona yng Nghymru a Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gan ei fod o'r farn bod hon yn bartneriaeth wirioneddol. Myfyriodd ar lwyddiant y rhaglen recriwtio (Uplift) gan nodi, pan fydd y rhaglen wedi'i chwblhau ddiwedd mis Mawrth, y bydd mwy o swyddogion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr nag erioed o'r blaen. Mae Llywodraeth y DU yn awyddus i gynnal y niferoedd hyn ac, o ganlyniad, mae'r setliad

ariannol wedi'i gynllunio i gynnwys hyn.

Trafododd y broses genedlaethol o lanhau data cyflogeion yr heddlu, heddluoedd sy'n rhoi argymhellion fetio Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar waith, yn ogystal â nodi bod canllawiau statudol newydd y Coleg Plismona ar fetio wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar a bod ymgynghoriad yn mynd rhagddo yn eu cylch. Nododd fod y Swyddfa Gartref bron â chwblhau'r adolygiad o'r pwerau diswyddo sydd gan Brif Gwnstabliaid drwy esbonio mai'r nod yw rhoi'r lefel briodol o awdurdod i Brif Gwnstabliaid allu diswyddo swyddogion pan fydd achos o gamymddwyn neu broblemau fetio gan ei fod yn teimlo bod y pwerau hyn wedi cael eu cyfyngu'n afresymol gan reoliadau.

Ychwanegodd y caiff pryderon eu nodi'n aml am y prosesau biwrocrataidd gormodol sy'n gysylltiedig â chofnodi troseddau sy'n cymryd swm sylweddol o amser yr heddlu. Felly, caiff rheolau cyfrif y Swyddfa Gartref eu diwygio'n fuan er mwyn lleihau'r baich ar blismona, megis cofnodi sawl trosedd ag un cod digwyddiad a chofnodion eraill nad ydynt yn ychwanegu gwerth. Nododd y Gweinidog fod Iechyd Meddwl yn faes arall sy'n cael sylw er mwyn lleihau'r baich ar blismona, yn enwedig y cynllun peilot yn Humberside, Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir, a gaiff ei roi ar waith ledled Lloegr dros yr ychydig fisoedd nesaf a holodd a yw hyn yn berthnasol yng Nghymru hefyd, gan fod Iechyd yn faes datganoledig yng Nghymru.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei gyfraniad a dywedodd ei fod yn galonogol clywed am y rhaglen recriwtio (Uplift) a nododd y caiff y pwyntiau a wnaed o ran ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd eu trafod ar yr agenda. Nododd ei bod yn teimlo bod angen ystyried y mater Iechyd Meddwl gan fod Iechyd yn faes datganoledig, felly bydd yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynne Neagle Aelod o'r Senedd, ymateb i'r pwyntiau hyn.

**2.2.** Nododd Dr James Davies, Aelod Seneddol, fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi crybwyll yn flaenorol fod ei swyddfa yn awyddus i weithio ledled Cymru drwy waith partneriaeth gan fod hyn yn fwy tebygol o arwain at ganlyniadau, gwelliant o ran diogelwch cymunedol, yn ogystal â gostyngiad mewn troseddu.

## 3. Materion Allweddol i'w Trafod

### 3.a. Ymddiriedaeth a Hyder y Cyhoedd mewn Plismona a Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach

#### 3.a.1 Proses Genedlaethol o Lanhau Data Cyflogeion yr Heddlu

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a nododd y cytunwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr y byddai Ymddiriedaeth a Hyder yn eitem sefydlog. Cydnabu fod holl arweinwyr plismona Cymru wedi ymrwymo'n flaenorol i sefyll yn erbyn ymddygiad amhriodol.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Blakeman fod Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu wedi'i chreu o ganlyniad i farwolaethau Holly Wells a Jessica Chapman yn Soham. Argymhellodd yr ymchwiliad cyhoeddus yn dilyn eu marwolaethau y dylai'r heddlu rannu'r gudd-wybodaeth a gedwir ar eu systemau unigol. Mae Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu yn adlewyrchu cronfa ddata cudd-wybodaeth pob heddlu yn wlad, sy'n cynnwys data diogelu, megis pan fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o achos.

Esboniodd fod y maes plismona wedi gwneud ymdrechion dros y pedair blynedd diwethaf i sicrhau bod y system yn cael ei chynnal, a phan na fydd gwasanaeth neu gymorth ar gyfer rhannau o'r system, mae'r maes wedi ceisio amnewid ac uwchraddio elfennau, megis y cyfleuster chwilio.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Blakeman fod unrhyw un sy'n ymuno â'r maes plismona yn destun gwiriad ar Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu. Disgrifiodd effaith y broses glanhau data ar unedau fetio heddluoedd gan ddefnyddio cynllun peilot Gogledd Swydd Efrog fel enghraifft, lle rhoddwyd pob cyflogai drwy'r system er mwyn gweld pa mor ymarferol ydoedd. O ganlyniad, mae heddluoedd wedi gallu sicrhau nad yw'n tarfu ar fusnes dyddiol mewn perthynas â Chronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu. Mae heddluoedd Cymru bellach mewn sefyllfa lle mae gwybodaeth pob cyflogai wedi'i mewnbynnu i CGI Inc. Cafodd y wybodaeth hon ei phrosesu drwy'r broses glanhau data a'i dychwelyd i heddluoedd sydd eisoes yn dechrau ei phrosesu.

Y bwriad yw lanlwytho data'r holl staff y mae heddluoedd am eu gwirio, fel y bydd yn sbarduno ymateb yn unedau fetio heddluoedd os bydd eu manylion yn ymddangos unrhyw bryd ledled y wlad. Esboniodd y Prif Gwnstabl Blakeman y bydd plismona mewn sefyllfa well o ran sicrwydd ond roedd am bwysleisio fod gwiriadau o Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu wrth gyflogi ac ailfetio wedi bod yn cael eu cynnal ers peth amser.

### 3.a.2. Sut yr Effeithir ar Ymddiriedaeth a Hyder

Pwysleisiodd Paul Morris nad ei gyflwyniad ef oedd hwn ac mai Rachel Tuffin o'r Coleg Plismona oedd wedi paratoi'r sleidiau a'u bod wedi cael eu dosbarthu er mwyn rhoi cyd-destun a llywio'r drafodaeth. Pwysleisiodd bwynt y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod ymddiriedaeth a hyder wedi bod yn bryder i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid ers peth amser.

Nododd fod Rachel Tuffin wedi rhoi trosolwg o waith sy'n cael ei wneud ar ymddiriedaeth a hyder, yn ogystal â rhai o'r materion allweddol sy'n cael eu hadolygu gan y Coleg Plismona yn y cyfarfod Plismona yng Nghymru diwethaf. Mae'r cyflwyniad yn ystyried yr hyn y mae ymddiriedaeth a hyder yn ei olygu, yn trafod astudiaethau sy'n esbonio'r hyn sy'n dylanwadu ar farn y cyhoedd am blismona, pa ffactorau sy'n effeithio ar ganfyddiadau o blismona a beth y gall Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ei wneud i fynd i'r afael â hyn.

Tynnodd Paul Morris sylw'r Bwrdd at ambell bwynt allweddol:
• Yn ei chyflwyniad, pwysleisiodd Rachel rôl allweddol plismona yn y gymdogaeth o ran cynnal hyder y cyhoedd, felly mae Plismona yng Nghymru yn awyddus i gydnabod bod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig yn hyn o beth o ran ariannu nifer sylweddol o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ledled Cymru sy'n darparu swyddogaeth hanfodol yn hynny o beth.
• Yr agwedd arall yn y cyflwyniad yw'r awgrym bod Cymru ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â hiliaeth drwy'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol.

**3.a.2.1** Pwysleisiodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert y pwynt hwn, gan nodi bod dealltwriaeth dda o lawer o faterion yng Nghymru eisoes. Dywedodd ei fod bellach yn aelod o Fwrdd y Coleg Plismona lle trafodwyd Adolygiad y Farwnes Casey yn y cyfarfod diwethaf. Er bod yr adroddiad yn benodol ar gyfer y Met, roedd pawb yn gytûn bod angen i bob heddlu fynd i'r afael â'r materion a godir yn yr adolygiad.

**3.a.2.2** Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael er bod y cyflwyniad gan y Coleg Plismona yn cynnwys nifer o bynciau pwysig, mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaeth yng Nghymru a'r holl waith partneriaeth sy'n cael ei wneud i gefnogi heddluoedd sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Defnyddiodd Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru fel enghraifft o hyn.

### 3.a.3. Rôl y Llywodraeth – Trafodaeth y Bwrdd Plismona Cenedlaethol

Esboniodd y Prif Gwnstabl Lewis fod trafodaethau yn y Bwrdd Plismona Cenedlaethol wedi canolbwyntio ar wella ymddiriedaeth a hyder. Nododd yr ymdriniwyd â'r broses ddiswyddo yn ogystal â'r sefyllfa pan na ellir defnyddio cyflogai am nad yw'n cydymffurfio â'r safonau fetio.

Dywedodd y cafwyd trafodaeth am allu plismona i gyhuddo pobl o droseddau penodol hefyd heb orfod mynd drwy Wasanaeth Erlyn y Goron, am nad yw'r system yn caniatáu i wasanaeth yr heddlu wneud hynny. Ategodd y Prif Gwnstabl Lewis y pwynt a wnaed gan Gomisiynydd y Met yn y Bwrdd Plismona Cenedlaethol mewn perthynas â'r cyfnod o 28 diwrnod i ymdrin ag achos syml, lle mae'n ofynnol iddynt anfon ffeiliau i Wasanaeth Erlyn y Goron, ond y gall heddluoedd wneud penderfyniadau uniongyrchol bron mewn perthynas â materion eraill.

Esboniodd y Prif Gwnstabl Lewis fod plismona yn arsylwi ar achosion o adael dioddefwyr i ddiflannu yn y system Cyfiawnder Troseddol am eu bod yn aros am ymatebion gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Roedd yn teimlo bod carfan o droseddau nad yw Gwasanaeth Erlyn y Goron na systemau ehangach yn eu gweld, gan fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Ringylliaid y Ddalfa ac Uwch-swyddogion eraill ledled y wlad ond mae'n teimlo bod risg gydag achosion na chânt eu herlyn, felly mae'n bosibl y byddai penderfynu cyhuddo'r unigolyn yn llai o risg ond ni all heddluoedd wneud hyn oherwydd bod y system bresennol yn anghytbwys. Cydnabu'r Prif Gwnstabl Lewis pe bai gwasanaeth yr heddlu yn cael y cyfle i gyhuddo pobl o rai troseddau, yn hytrach na gorfod cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron, byddai problemau systemig am nad yw'n barod ar gyfer y capasiti hwnnw.

**3.a.3.1.** Dywedodd Chris Philp, Aelod Seneddol, yn ystod ei drafodaeth gyntaf â Chomisiynydd y Met, ei fod wedi dweud nad oedd gan Brif Swyddogion y lefel o awdurdod i ddiswyddo swyddogion pe bai achos o gamymddwyn neu fethu â pherfformio. Felly, dechreuodd Chris Philp, Aelod Seneddol, waith i adolygu hyn, gyda'r nod o roi pwerau llawer mwy sylweddol i Brif Swyddogion. Disgwylir i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau ddiwedd mis Ebrill.

Mae'r Gweinidog Plismona o'r farn y dylai'r unigolyn sy'n rhedeg sefydliad allu gwneud penderfyniadau diswyddo oherwydd os caiff rhywun ei ddiswyddo'n annheg, gall apelio yn erbyn y penderfyniad drwy Dribiwnlys Apeliadau'r Heddlu, sy'n debyg i dribiwnlys cyflogaeth.

Gofynnodd i'w dîm adolygu'r rheoliadau mewn perthynas ag ailfetio gan ei fod yn teimlo bod methu proses ailfetio yng nghanol gyrfa fod yn rheswm dros ddiswyddo mewn achosion lle byddai'r unigolyn wedi methu gwiriadau cyn cyflogi a heb allu ymuno â'r gwasanaeth.

**3.a.3.2.** Mae'r Prif Gwnstabl Lewis yn teimlo y bydd gallu diswyddo cyflogeion yn haws yn gam pwysig wrth geisio ennyn ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

**3.a.4. Camau sy'n cael eu Cymryd gan Brif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr**

**3.a.4.1.** Croesawodd y Cadeirydd y sicrwydd a gafwyd gan y Prif Gwnstabl Blakeman yn y Bwrdd Gweithredu ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ei bod yn bwriadu dod o hyd i unrhyw broblemau yn Heddlu Gogledd Cymru a'u datgelu. Nododd fod hyn hefyd yn brif flaenoriaeth i bob Prif Gwnstabl yng Nghymru.

**3.a.4.2.** Awgrymodd y Prif Gwnstabl Lewis na fyddai ymrwymiad ar lafar gan heddluoedd yn ddigon i gynnal hyder y cyhoedd, a'i fod yn teimlo ei bod yn bryd datblygu'r cam gweithredu hwn. Pwysleisiodd fod pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl yng Nghymru am fod y cyntaf i gael gwared ar bob agwedd o anghymesuredd.

**3.a.4.3.** Ailadroddodd y Prif Gwnstabl Vaughan y teimlad ym mhob rhan o Blismona yng Nghymru sef mai ar gyfer Heddlu'r Met yr ysgrifennwyd adroddiad Casey, ond pwysleisiodd nad oes unrhyw Gomisiynydd Heddlu a Throseddu na Phrif Gwnstabl yng Nghymru nad yw'n benderfynol o ddod o

hyd i unrhyw unigolyn sy'n mynd i siomi'r gwasanaeth, megis pobl sy'n casáu menywod, dallbleidwyr a phobl hiliol. Cydnabu fod pobl fel hyn ym mhob sefydliad ond mae'n awyddus i adeiladu ar y seilwaith i gael gwared arnynt o'r gwasanaeth felly byddai'n croesawu'r pwerau ychwanegol. Mae'n awyddus i sicrhau y gwneir hyn yn gywir er mwyn osgoi treulio amser yn ymgyfreithia.

Mae'r Prif Gwnstabl Vaughan yn teimlo bod angen canolbwyntio ar ymddygiad gan fod unigolion sy'n llawn bwriadau da yn gweithio mewn sefydliadau yn aml sydd angen help i ddeall beth yw gwahaniaethu a thuedd go iawn. Mae'r Prif Gwnstabl Vaughan yn teimlo bod heddluoedd Cymru ar daith o hyd, gyda'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol ar fin cael ei lansio ar Blismona yn y Gymdogaeth, dywedodd fod Cymru ar flaen y gad yn hyn o beth a bod y seilwaith eisoes yn ei le.

**3.a.4.4.** Dywedodd y Prif Gwnstabl Kelly ei bod yn hynod falch o'r gwaith yng Nghymru a nododd ei bod yn teimlo bod angen llais cryfach i gyfleu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â VAWDASV a Gwrth-hiliaeth. Dywedodd y Prif Gwnstabl Kelly fod Gwent, fel heddlu, wedi wynebu problemau ynghylch camymddygiad swyddogion yn ddiweddar, ond mae'n teimlo bod y mater hwn hefyd yn cynnig cyfle i Blismona yng Nghymru greu rhywbeth cadarnhaol, yn enwedig mewn perthynas â diwygio'r heddlu drwy sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn rhan reddfol o'r nifer mawr o gyflogeion newydd mewn heddluoedd. Dywedodd y dylid canolbwyntio ar ddiwygio barn am blismona yn ogystal â strwythur heddluoedd, er mwyn sicrhau bod yr unigolion sy'n gweithio ym maes plismona yn cael eu gwerthfawrogi, wrth dargedu'r unigolion sy'n achosi problemau ar yr un pryd.

**3.a.4.5.** Ategodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools, fel yr arweinydd ar hil a VAWDASV ar ran pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y pwyntiau a wnaed, ond roedd yn cytuno â'r Prif Gwnstabl Lewis a phwysleisiodd ei bod yn awyddus i roi'r camau gweithredu hyn ar waith.

Amlinellodd y gwaith sy'n cael ei wneud i roi'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, ar waith. Mae hyn yn cyfuno ymrwymiadau gan Blismona yng Nghymru a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol ehangach a gafodd eu llunio a'u llywio gan gymunedau â phrofiad bywyd. Mae Panel Craffu a Goruchwylio Annibynnol wedi cael ei sefydlu a fydd yn dwyn plismona a phartneriaid i gyfrif mewn perthynas â chyflawni'r cynllun gweithredu, yn ogystal â rhwydwaith ymgysylltu cymunedol i ategu'r panel ac ystyried yr effaith y mae'r camau gweithredu yn ei chael ar gymunedau.

**3.a.4.7.** Trafododd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Thomas y ffordd y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yn ymateb drwy esbonio bod Tasglu VAWDASV wedi'i sefydlu y mae pob heddlu yn adrodd iddo ac a gaiff ei gadeirio ar y cyd gan Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Thomas a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools gyda'r Prif Gwnstabl Blakeman ac mae'n canolbwyntio ar newid, gweithredu a chael effaith. Mae'r Glasbrint VAWDASV yn deillio o waith y tasglu hwn.

Er bod yn rhaid i blismona weithredu, mae angen gwneud gwaith mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill hefyd, gan gydnabod y bydd llawer o'r materion hyn yn effeithio ar gydweithwyr yn y sector cyhoeddus hefyd. Nododd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Thomas fod llinyn gwaith yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc yr effeithir arnynt gan Drais yn erbyn Menywod a Merched sy'n ystyried ataliaeth ac yn mynd i'r afael ag adroddiad Ofsted ac Arolygiad Estyn o gam-drin rhwng cyfoedion mewn ysgolion, gan nodi bod hyn yn waith pwysig.

**3.b Wyneb Newidiol Cyllid yr Heddlu – Cyfyngiadau a Phwysau**

**3.b.1.** Tynnodd Peter Curran sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad a rannwyd ag aelodau'r Bwrdd, gan esbonio bod yr adran gyntaf yn ymdrin â chyllidebau 23/24 a gwaith cynllunio ariannol ehangach. Cyflwynodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu cynigion Praesept gerbron Paneli'r Heddlu a Throseddu. Mae'r ffigurau yn adran un yn dangos bod y cyllid a gafodd Plismona yng Nghymru yn sgil cynnydd yng Ngrantiau'r Heddlu a'r Praesept ac ati yn £39m, ond amcangyfrifir y bydd gwerth £62m o bwysau cyllidebol yn wynebu heddluoedd y flwyddyn nesaf, sy'n golygu bod diffyg o £23m, o ganlyniad i chwyddiant yn bennaf. Dywedodd fod hyn yn ychwanegol at y £188m o arbedion y mae heddluoedd wedi gorfod eu gwneud dros y 10 mlynedd diwethaf.
O'r cyllid y bydd y maes plismona yn ei gael yn 23/24, mae rhagor o arian yn dod o braeseptau lleol na grant yr heddlu ar gyfer pob heddlu. Mae'r datblygiad hwn yn destun pryder ac nid yw'n fodel cynaliadwy. Mae hyn yn dangos bod yr arian gan Lywodraeth y DU wedi cael ei neilltuo i'r rhaglen recriwtio (Uplift) i raddau helaeth ac anfantais hyn yw mai dim ond swm bach o'r grant sydd ar ôl i ariannu costau chwyddiant craidd.

Y ffactor arall a nodwyd yw praesept a'r dreth gyngor, gan fod y cynnydd yn sylfaen y dreth gyngor yn sylweddol is yng Nghymru nag yn Lloegr, sy'n golygu bod y man cychwyn i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gynyddu'r praesept yng Nghymru yn is nag yn Lloegr; 0.7% oedd y cyfartaledd yng Nghymru o gymharu ag 1.5% yn Lloegr.

Nodwyd pryder ynghylch dyfarniad cyflog 2023 gan fod heddluoedd wedi cyllidebu 3% ond nid yw'r ffigur hwn wedi'i gadarnhau eto ac, oherwydd bod chwyddiant yn cynyddu ymhellach, mae heddluoedd yn bryderus a fydd 3% yn ddigon. Mae heddluoedd yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw pobl oherwydd bod cynnydd o 3.5% pan mae chwyddiant yn 10% yn golygu ei bod yn anodd cadw staff. O ran chwyddiant heb fod yn gyflog, gwelir y pwysau mwyaf ar yr angen am gerbydau, lifrai a thechnoleg newydd gan nad oes digon o arian yng ngrant yr heddlu i ariannu chwyddiant heb fod yn gyflog y mae'n rhaid dod o hyd iddo o fewn cyllidebau heddluoedd.

**3.b.2.** Tynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cuthbert sylw'r Gweinidog Plismona at y broblem ariannu yng Nghymru, fel yr Ardoll Brentisiaethau ac arian ychwanegol a ddarperir ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghymru gan ei fod yn awyddus i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran deg o'r cyllid.

**3.b.3.** Atgyfnerthodd y Prif Gwnstabl Kelly bwynt Peter ynghylch diffyg cyllid ar gyfer cyllidebau cyfalaf, fel cerbydau ac ystadau, yn enwedig yr Uned Arfau Tanio ar y Cyd gan ei bod yn rhan hanfodol o blismona er mwyn cadw pobl yn ddiogel ac mae'n fuddsoddiad enfawr i'r tri heddlu yn Ne Cymru. Nododd y bydd angen uned newydd yn y ddalfa yn Heddlu Gwent o fewn y pum mlynedd nesaf ond nid oes gan heddluoedd ddigon o gyllid cyfalaf. Mae hyn yn creu risg o ran a fydd yr heddlu yn gallu sicrhau bod gan swyddogion a staff yr adnoddau priodol i gyflawni eu rolau.

**3.b.4.** Awgrymodd y Cadeirydd y dylid sicrhau bod cyllid yr heddlu ar yr agenda ar ddechrau'r cyfarfod y tro nesaf y bydd y Gweinidog Plismona yn bresennol, fel ei fod yno i glywed y pryderon ynghylch Plismona yng Nghymru. Gofynnodd i Chris Batchelor adrodd yn ôl ar bryderon Plismona yng Nghymru ynghylch cyllid fel y nodwyd uchod.

**4. Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio**

Cytunwyd y cafodd yr eitem hon sylw yn ystod y trafodaethau o fewn yr eitemau craidd.

**5. Diweddariadau gan Bartneriaid yn ôl Eithriad**

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y Glasbrint VAWDASV a nododd sylwadau blaenorol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Wools a Thomas. Soniodd am waith ar y

pecyn cymorth i fynd i'r afael ag achosion o aflonyddu rhywiol yn y gweithle, a oedd yn cael ei gadeirio gan Shavanah Taj a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis, a nododd fod hyn yn enghraifft arall o waith partneriaeth.

**5.1.** Rhoddodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools y wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, a chysylltiad Cyrff Cyfiawnder Troseddol â'r Glasbrint VAWDASV yn benodol, gan esbonio y cymerwyd papur er mwyn sicrhau bod y rhaglen waith a gweithgarwch yn cael ei hintegreiddio'n llawn ac yn cyd-fynd â gwaith y glasbrint. Bydd Cyrff Cyfiawnder Troseddol yn helpu i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth o ran sut y caiff camau gweithredu eu pennu ac mae Partneriaid Cyfiawnder Troseddol wedi cytuno i roi sylw mwy penodol i enghreifftiau o gamddefnyddio pwerau yn eu sefydliadau er mwyn bwydo i mewn i linyn aflonyddu yn y gweithle'r Glasbrint.

**5.2.** Tynnodd y Prif Uwch-arolygydd Ian Roberts sylw at y buddsoddiad y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid wedi'i wneud yn ei rôl fel Cydlynydd Cymru Gyfan yr Heddlu i weithredu ar eu rhan mewn perthynas â VAWDASV a Gwrth-hiliaeth. Mae'n gweithio i nodi meysydd lle gall plismona wella'r ffordd y mae'n cydweithio ac yn rhannu gwersi a ddysgwyd yn ogystal â gweithio tuag at drefniadau partneriaeth y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a'r Glasbrint VAWDASV.

**5.3.** Rhoddodd Joanne Hopkins y wybodaeth ddiweddaraf am ddau faes gwaith: yr Uned Atal Trais yn cwblhau ei Strategaeth Atal Trais Ymhlith Pobl Ifanc, a gaiff ei lansio ym mis Ebrill, yn ogystal â diolch i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru am gymryd rhan mewn adolygiad o'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a hefyd ymrwymo i barhau gyda'r gwaith er mwyn datblygu cynllun peilot mewn perthynas â'r Fframwaith Trawma yng Nghymru.

## 6. Unrhyw Fater Arall

**6.1.** Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael wedi bod i gyfarfodydd ag Awdurdodau Lleol yn ddiweddar lle codwyd cwestiynau am roi'r terfyn cyflymder 20 mya ar waith. Yn ystod cyfarfodydd ag Awdurdodau Lleol yng Nghaerdydd, roeddent wedi cael gwybod bod Llywodraeth Cymru am fynd i'r afael â gorfodi drwy GanBwyll. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael yn teimlo mai mater lleol yw gorfodi yn hytrach na mater i GanBwyll, sef trefniant partneriaeth. Dywedodd hefyd nad yw wedi cael diweddariad ynghylch rhoi'r terfyn cyflymder 20mya ar waith ers peth amser a holodd a fydd y broses weithredu yn cael ei rheoli ar y cyd gan yr Heddlu ac Awdurdodau Lleol neu a fydd Llywodraeth Cymru yn rheoli hyn drwy GanBwyll. Ymatebodd y Cadeirydd i ddweud y bydd yn rhannu'r ymholiad â swyddfa'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r rhyngwyneb plismona.

**6.2.** Roedd y Cadeirydd yn awyddus i feithrin dealltwriaeth o'r cyllid Iechyd Meddwl ar gyfer Lloegr a'r rhaglen sydd wedi cael ei datblygu gan Lywodraeth y DU a allai fod yn gymwys i Gymru gan fod Iechyd Meddwl yn faes datganoledig. Gofynnodd i Chris Batchelor rannu'r sylwadau gan Blismona a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid canlyniadol a ddylai ddod i Gymru o ganlyniad i gyhoeddiadau a wnaed yn Lloegr.

**6.2.1.** Gofynnodd y Prif Gwnstabl Lewis am i bwynt ychwanegol gael ei rannu, gan nodi ei fod, fel yr Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Cyffuriau, yn ei chael hi'n anodd olrhain cyfleoedd cyllido gan Lywodraeth y DU i Gymru.

**6.2.2.** Awgrymodd Chris Batchelor y dylid anfon llythyr ar y cyd oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Gweinidog Plismona am yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag olrhain cyllid canlyniadol yng Nghymru yn sgil cyhoeddi cyllid ar gyfer

gwasanaethau cymorth camddefnyddio sylweddau yn Lloegr.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**
Dydd Iau 22 Mehefin 2023 am 2-4pm